# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 17 Medi 2014** |
| Amser: | **09.15 - 12.30** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/de9a1215-f97a-4380-a65b-51792ccf6c9a?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw AC**<br>**Russell George AC**<br>**Llyr Gruffydd AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**William Powell AC**<br>**Antoinette Sandbach AC**<br>**Joyce Watson AC**<br>**Jeff Cuthbert AC (yn lle Gwyn R Price AC)**<br>**Jenny Rathbone AC** |
| Tystion: | **Rebecca Evans AC, Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**<br>**Carl Sargeant AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**<br>**Andrew Slade, Llywodraeth Cymru**<br>**Prys Davies, Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd**<br>**Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru**<br>**Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Adam Vaughan (Dirprwy Glerc)**<br>**Elfyn Henderson (Ymchwilydd)** |

TRAWSGRIFIAD

**Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

**1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwyn Price a Julie James yn sgil ei phenodiad yn Ddirprwy Weinidog. Roedd Jeff Cuthbert a Jenny Rathbone yn bresennol fel dirprwyon.**

## 2 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

2.1 Ymatebodd y Gweinidog a'i swyddogion gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i:

- Ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu nodyn cynhwysfawr ar yr agenda polisi bioamrywiaeth.
- Ystyried cyhoeddi adroddiad yr archwiliad a wnaed i gamau gweithredu bioamrywiaeth a gynhaliwyd gan adrannau'r Llywodraeth.
- Ystyried darparu dangosyddion perfformiad allweddol/data gwaelodlin a ddefnyddir i fesur canlyniadau'r Cynllun Adfer Natur.
- Ysgrifennu at y Pwyllgor gyda gwybodaeth am y pwyntiau a nodwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch nwy siâl / ffracio.
- Ystyried gwneud datganiad wedi'i ddiweddaru ar safbwynt y Llywodraeth ar nwy siâl / ffracio.
- Darparu'r siart llif i'r Pwyllgor a ddefnyddir gan y Llywodraeth yn ymwneud â'r prosesau cynllunio mewn cysylltiad â ffracio.
- Ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r diweddaraf am raglen Ynni'r Fro, gyda'r ffigurau sydd ar gael.
- Ysgrifennu at y Pwyllgor i roi eglurhad ar eithriad y Goron yn ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Ysgrifennu at y Pwyllgor yn rhoi manylion am y dyddiad y cyhoeddir y Strategaeth Ddŵr, a darparu nodyn ar gynnydd y pum argymhelliad a dderbyniwyd mewn egwyddor.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 a 5

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Paratoi ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor

5.1 Cynhaliodd y Pwyllgor seminar wrth baratoi i ystyried Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## 6 Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

**Ymatebodd y Dirprwy Weinidog a swyddogion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.**
6.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i rannu adroddiad Cymorth TB gyda'r Pwyllgor.

**Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro safbwynt y Llywodraeth ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) mewn perthynas â'r gofynion Gwyrddu newydd.**
6.4 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sector cynnyrch llaeth.

## 7 Papurau i'w nodi

**Cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd ar rwydi drifft: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth a Physgodfeydd i lythyr gan y Cadeirydd ar 24 Mehefin.**
7.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

**Ymchwiliad i Ailgylchu yng Nghymru: Gwybodaeth bellach gan WRAP Cymru.**
7.2 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Cynnig cydsyniad deddfwriaethol ynghylch y Bil Seilwaith: Ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon i lythyr gan y Cadeirydd ar 21 Gorffennaf .**
7.3 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

**Polisi dŵr yng Nghymru: Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon at y cadeirydd.**
7.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd: Ymateb gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'r adroddiad a gyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf.**
7.5 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

**Ymchwiliad i effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yng Nghymru: Rhagor o wybodaeth gan Gyngor ar Bopeth Cymru**

7.6 Nododd y Pwyllgor y papur.

**Ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir: Ymateb gan y Gweinidog Tai ac Adfywio i'r llythyr gan y Cadeirydd ar 16 Mehefin**

7.7 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.